| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Allwedd Nodweddion |
| Disgrifiad: | Didoli anifeiliaid ar sail eu nodweddion. |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Sgìl Rhaglen Astudio posib: | Llafaredd> Siarad / Gwrando / Cydweithio a thrafod |
| Testun T. Llew Jones | 'Pam?', *Trysorfa T. Llew Jones*, t.169 |
| Offer angenrheidiol: | • Y gerdd 'Pam?'<br>• Taflen 'Pa anifail?'<br>• Cardiau gydag enwau'r anifeiliaid (i'w torri o'r daflen isod) |
| Trefn a awgrymir: | • Darllenwch y gerdd i'r dysgwyr.<br>• Gofynnwch i'r dysgwyr wrando ar y gerdd eto yn astud gan gofio pa anifeiliaid y cyfeirir atyn nhw.<br>• Darllenwch y gerdd eto yna holwch pa anifeiliaid ac adar roedd y dysgwyr yn eu cofio.<br>• Esboniwch fod sawl peth yn gallu bod yn wahanol rhwng anifeiliaid, e.e. lliw, maint, a bod sawl peth yn gallu bod yr un peth.<br>• Holwch y dysgwyr pa anifeiliaid y gallan nhw feddwl amdanynt sydd â - plu, cynffon, cragen, pedair coes, carnau,<br>• Gall y dysgwyr weithio mewn parau. Un dysgwr i ddewis anifail o'r 8 dewis. Yna gall y llall ddefnyddio'r allwedd i ganfod pa anifail sydd gan y dysgwr cyntaf. |
| Gweithgareddau gwahaniaethol: | Gall y dysgwyr greu eu hallwedd eu hunain ar gyfer anifeiliaid eraill. Wedi creu allwedd gallant weithio mewn parau i sicrhau bod yr allwedd yn gweithio.<br><br>Gall ddysgwyr hŷn greu eu hallwedd eu hunain ar gyfer anifeiliaid gan ddefnyddio termau mwy gwyddonol, e.e. mamaliaid/ymlusgiaid/trychfilod, gaeafgysgu ac ati. |